



www.ysgolbotwnnog.org



YN Y BWLETIN
TYMOR YMA

- ✓ DATHLIADAU 400
- ✓ BLWYDDYN 11
- ✓ DIGWYDDIADAU
- ✓ NOSON GOFFI
- ✓ Y GYMDEITHAS RIENI
- ✓ COD YMDDYGIAD TEITHIO
- ... A MWY

NEGES GAN Y PRIFATHRO



Mr Dylan Minnice

Blwyddyn Newydd Dda
(Ychydig bach yn hwyr!)

Gobeithio y cawsoch chi gyd 'Ddolg wrth eich bodd.

Diolch i chi am y gefnogaeth yn ystod y tymor diwethaf ac am eich parodrwydd i gysylltu gyda'r ysgol pan oedd gennych rhywbeth yr hoffech ei drafod.

Cofiwch mae croeso i chi gysylltu unrhyw amser.

DATHLIADAU 1616 - 2016



Mae 2016 yn flwyddyn bwysig iawn yn hanes Ysgol Botwnnog gyda'r ysgol yn dathlu ei phedwar canmlwyddiant.

Bydd nifer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys Sioe, Cyngerdd a Gig. Bydd llyfr o hanes yr ysgol yn cael ei gyhoeddi yn ystod y flwyddyn - gallwch danysgrifo i'r llyfr am bris gostyngedig drwy gysylltu â'r ysgol. Bydd mwy o wybodaeth am y dathliadau yn y wasg ac ar wefan yr ysgol.

Gellir prynu cofroddion o'r ysgol yn cynnwys mygiau, llienau sychu llestri, bagiau siopa a llyfrau nodiadau.

BLWYDDYN 11

Mae'r ddau dymor nesaf yn rhai hynod o bwysig i ddisgyblion Blwyddyn 11 wrth baratoi ar gyfer eu harholiadau TGAU ac wrth gynllunio ar gyfer eu dyfodol.

ARHOLIADAU ALLANOL

Bydd disgyblion Blwyddyn 11 yn sefyll arholiadau **ALLANOL** (sydd **YN** cyfrif tuag at eu graddau terfynol) ar sawl adeg yn ystod y ddau dymor.

Rydych wedi derbyn amserlen ar gyfer arholiadau Ionawr yn y noson rieni ym mis Hydref ond dyma'r dyddiadau rhag ofn eu bod wedi mynd yn angof.

IONAWR 2016 - BLWYDDYN 11

Saesneg Llên (Uned 1 - ail sefyll)	Ionawr 6
Bioleg (ail sefyll).....	Ionawr 7
Busnes Uned 2 (ail sefyll).....	Ionawr 7
Saesneg Iaith Uned 1 - Bl 11 TGAU i gyd	Ionawr 8
Saesneg Iaith Uned 2 - Bl 11 TGAU i gyd	Ionawr 12
Cemeg (ail sefyll).....	Ionawr 12
TGCH Uned 1 (Bl 11 TGCH i gyd).....	Ionawr 13
Ffiseg (ail sefyll)	Ionawr 14
Cymraeg Iaith Uned 1 - Bl 11 TGAU i gyd	Ionawr 15

CHWFROR/MAWRTH 2016 - BLWYDDYN 11

Arlwyo Ymarferol	Chwefror 1 a Mawrth 8 neu 15
Arholiad Celf	Mawrth 7 ac 8
Saesneg - Tystysgrif Lefel Mynediad (rhai o set 4 - Bl 10 ac 11).....	Mawrth 14
Mathemateg - Tystysgrif Lefel Mynediad (rhai o set 4 - Bl 10 ac 11).....	Mawrth 18

Bydd amserlen arholiadau TGAU'r haf ar gael ar wefan yr ysgol dan yr adran '**Disgyblion**'

ASESIADAU DAN REOLAETH (GWAITH CWRS)

Mae Aseidiadau dan Reolaeth (*gwaith cwrs gynt*) yn bwysig yn y rhan fwyaf o bynciau TGAU. Maent yn cyfrif rhwng 20% a 60% o'r marc terfynol ym mron bob pwnc. Bydd angen sicrhau fod y rhain i gyd yn cael eu cwblhau i'r safon uchaf posibl i anelu am y graddau uchaf yn y TGAU. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn gorfod cael eu cwblhau o fewn hyn a hyn o oriau mewn gwersi dan oruchwyliaeth athro - felly os ydy eich mab/merch yn absennol o'r gwersi yna bydd rhaid iddynt ddal i fyny amser cinio neu ar ôl ysgol.

CLWB GWAITH CARTREF

Pob nos Lun a Mercher o 3.30 - 5.00 mae cyfle i ddisgyblion aros yn yr ysgol yn y Llyfrgell a'r Ganolfan Adnoddau i gwblhau gwaith. Bydd aelod o staff yno i'w cynorthwyo os ydynt angen.

Gellir trefnu i'ch mab/merch aros yn y Clwb Gwaith Cartref trwy gysylltu â'r ysgol.

YSTAFELL WAITH / ANOGAETH

Gall y disgyblion fanteisio ar y cyfle i weithio amser egwyl/cinio yn y Llyfrgell neu'r Ystafell Adnoddau. Gallant hefyd fynd i ystafell 7 lle mae modd cael cefnogaeth aelod o'r staff annog os ydynt yn cael trafferth gyda'u gwaith.

CYNNYDD EICH MAB/MERCH

Bydd Blwyddyn 11 yn derbyn adroddiad llawn cyn diwedd Ionawr - os oes gennych bryder am gynydd eich mab/merch yna cysylltwch â'r ysgol.

CYFARFOD RHIENI BLWYDDYN 11 (CYFARFOD CYNNYDD)

Mae cyfarfod rhieni ychwanegol wedi ei drefnu ar gyfer Blwyddyn 11 ar Fawrth 22^{ain}.

Y FLWYDDYN NESAF...

Dosbarthwyd prospectws Coleg Meirion-Dwyfor/Menai i ddisgyblion Blwyddyn 11 y tymor diwethaf. Bydd cynrychiolydd o'r Coleg yn ymweld â'r Ysgol ym mis Chwefror i lenwi ffurflenni cais gyda'r disgyblion. Bydd hefyd cyfle i wneud ceisiadau am brentisiaethau.

Yn y cyfamser, os nad ydynt yn siŵr beth yw eu hopsiynau, gallant ofyn am apwyntiad i drafod posibiliadau'r flwyddyn nesaf gyda Mrs Nia Parry - Ymgynghorydd Gyrfa Cymru'r Ysgol.

Rydych wedi cael gwybodaeth am ddigwyddiadau agored yng Ngholegau Meirion-Dwyfor a Menai yn uniongyrchol gan y colegau. Mae gwybodaeth am y rhain yn y prospectws a hefyd ar eu gwefan: <https://www.gllm.ac.uk/events/>

Crynodeb:

Noson Wybodaeth **Pwllheli**: Ionawr 27 (18:00-20:00)

Noson Wybodaeth **Dolgellau**: Ionawr 25 (18:00-20:00)

Nosweithiau "Ar ôl TGAU" **Bangor**: Ion 28, Maw 10, Ebr 21, Meh 23 (16:30-18:30)

Nosweithiau "Ar ôl TGAU" **Llangefni**: Ion 26, Maw 8, Ebr 19, Meh 20 (16:30-18:30)

CEFNOGAETH I'CH MAB / MERCH

Yn Ysgol Botwnnog rydym yn ymdrechu i roi'r gofal gorau i bob disgybl ac os yw eich mab / merch yn cael amser anodd neu yn cael trafferthion gyda'u gwaith neu broblemau lles yna mae gennym nifer o arbenigwyr a all eu helpu:

Mr Geraint Hughes Dirprwy Brifathro / Swyddog Lles

Mrs Alaw Jones Japheth Lles y Merched

Mr Dafydd Owen Cymhorthyd / Mentor

Mrs Ann James Anogwr Dysgu

Mrs Carol Pilling Anogwr Dysgu / Mentor

Mrs Vida Kennedy Cwnselydd

Mrs Carys Hughes Swyddog Lles Addysg yr Awdurdod

Os hoffech i ni gyfeirio eich mab / merch at un o'r uchod yna cysylltwch â Mr Geraint Hughes, y Dirprwy Brifathro.

CEFNOGI EICH PLENTYN GYDA GWAITH YSGOL

- Dangoswch ddiddordeb yng ngwaith ysgol eich plentyn a rhowch gefnogaeth yn ôl beth mae o / hi ei angen. Cofiwch fod presenoldeb da yn hanfodol.
 - Trafodwch beth sydd wedi bod yn mynd ymlaen bob dydd a sut medrwch chi fod o gymorth.
 - Edrychwch ar lyfrau eich plentyn i ddod i ddeall pa waith sydd yn cael ei wneud. Helpwch efo'r dysgu trwy holi a chwestiynu am y gwaith.
 - Holwch am waith/gwaith cartref eich plentyn a gosod rheolau ynglŷn â'i gwblhau.
 - Siaradwch am ddisgwyliadau gyda'ch plentyn, beth mae'n obeithio fel graddau, a lle hoffai barhau â'i addysg/hyfforddiant. Anogwch eich plentyn i wneud ei orau ac anelu yn uchel.
 - Sicrhewch fod eich plentyn gyda lle tawel i wneud gwaith ysgol. Ceisiwch sicrhau nad yw unrhyw beth fel ffôn/cyfrifiadur/teledu yn tarfu ar eich plentyn wrth wneud gwaith ysgol.
 - Helpwch eich plentyn i drefnu ei waith/ei gwaith gan roi digon o amser iddo/iddi i baratoi at brofion ac arholiadau.
 - Dowch i ddeall pwysigrwydd asesiadau dan reolaeth ac arholiadau i strwythur y cyrsiau TGAU. Gwnewch yn saff eich bod yn gwybod pa bryd mae profion, asesiadau ac arholiadau pwysig.
 - Dowch i gyfarfodydd rhieni i drafod gwaith eich plentyn gyda'r athrawon.
 - Os nad ydych yn sicr am unrhyw beth, neu angen cyngor cysylltwch â'r ysgol i siarad efo Mr Dylan Minnice neu Mr Geraint O. Hughes.
-

RHAI O DDIGWYDDIADAU'R TYMOR DIWETHAF

- Taith i weld 'Drych' Neuadd Dwyfor - Drama gan Llŷr Titus Hughes (cyn-ddisgybl)
- Dosbarth Arlwyio Bl 11 yn cael ei ffilmio ar gyfer rhaglen 'Heno' ar S4C
- Cystadleuaeth Coginio Clwb Rotari Pwllheli (Rownd 1 a 2) - Helena Griffith yn fuddugol ac yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth Gogledd Cymru yng Nglannau Dyfrdwy ym mis Chwefror.
- Cwrs Gwobr Dug Caeredin - Plas Menai
- Taith Adnabod Bro Blwyddyn 7
- Gweithdy gitâr ym Mhlas Glyn y Weddw
- Ymweld ag arddangosfa Celf ym Mhlas Glyn y Weddw
- Gwobr Dug Caeredin - Dringo Canolfan Beacon
- Ffair Grefftau'r Gymdeithas Rhieni - dros £1300 o elw i'r Gymdeithas
- Gweithdy 'Perthynas' Theatr Cats Paw
- Noson Goffi Blwyddyn 11 - codi tua £5000 at achosion da
- Ymweld â chanolfan Teens4U i ddosbarthu bocsys sgidiau Nadolig (dros 50 wedi'u casglu)
- Lab in a Lorry (Gweithdai Gwyddoniaeth)
- Gweithdy 'Maximize Your Potential' ar gyfer Blwyddyn 11
- Ymweliadau Blwyddyn 6
- Taith Sglefrio i Lannau Dyfrdwy
- Taith i Ffair Aeaf Llanellwedd
- Cyngerdd Nadolig yr Adran Gerddoriaeth



S4C yn ffilmio'r dosbarth Arlwyio



Enillydd Rownd 2 Cystadleuaeth Coginio Rotari Pwllheli, Helena Griffith, yn derbyn ei thystysgrif gan Chris Chown (Beirniad) a David Watson (Clwb Rotari)

Llwyddiannau Addysg Gorfforol

- Tîm Hoci dan 16 2^{il} yn Nhwrnament Meirion-Dwyfor
 3^{ydd} yn Nhwrnament Eryri
- Tîm Pêl Droed Bl 9 a 10 3^{ydd} yn Nhwrnament 5 bob ochr yr Urdd
- Tîm Rygbi dan 14 Pencampwyr Meirion-Dwyfor
- Tîm Pêl Droed Bl 7 Rownd Gynderfynol Gwynedd
- Gymnasteg Tîm Nofis Bl 7 1^{af} yn Nhwrnament Eryri
- Gymnasteg Tîm Nofis Bl 8 2^{il} yn Nhwrnament Eryri
- Eiliw Evans Bl 7 1^{af} Gymnasteg (Nofis)
- Jamie Ollerenshaw, Rhys Thomas a Cian Williams yn sgwad rygbi dan 15 Gogledd-Orllewin Cymru.
- Gwen Hughes, Lois Thomas ac Alice Williams yn nhîm hoci dan 16 Gwynedd.

Diolch yn fawr i bawb am sicrhau cymaint o brofiadau amrywiol ar gyfer ein disgyblion.

Y GYMDEITHAS RIENI

Eleni eto bu'r Gymdeithas Rieni yn brysur yn trefnu Ffair Grefftau. Er gwaethaf y tywydd cafwyd ffair lwyddiannus iawn a gwnaed elw o £1284.15. Y Gymdeithas hefyd oedd yn gyfrifol am y raffl yng Nghyngerdd yr Adran Gerdd, diolch i bawb a gyfrannodd tuag at yr hamperi, gwnaed elw o £337. Mae'r arian yma i gyd yn mynd i brynu offer addysgol i'r ysgol er budd y plant.

Mae'r Clwb Codi Arian yn cael ei dynnu yn dymhorol gyda chyfle i ennill hyd at £100. A ydych chi'n aelod? - £12.00 y flwyddyn (siec i'r ysgol neu archeb banc). Mae ffurflenni ymuno yn cael eu dosbarthu'r wythnos yma. Manylion gan Mrs Nerys Williams, yr ysgrifenyddes - 01758 730220.

Mae'r blwch ail gylchu Antur Waunfawr yn llwyddiannus hefyd dros y flwyddyn ddiwethaf casglwyd £308.70. Diolch i bawb a gefnogodd y Gymdeithas yn y mentrau hyn.

Os hoffech gynorthwyo'r Gymdeithas Rieni, yna cysylltwch â'r ysgol neu un o'r swyddogion.

Swyddogion 2015/16: Cadeiryddes - Mrs Glesni Owen; Ysgrifenyddes - Mrs Carys Evans.

NOSON GOFFI BLWYDDYN 11

Eto eleni bu'r Noson Goffi flynyddol yn llwyddiant mawr. Er mwyn codi arian, trefnom lawer o weithgareddau amrywiol fel bod rhywbeth at ddant pawb. Cynhaliwyd gweithgaredd sydd bob amser yn boblogaidd ac yn ennyn diddordeb yr holl ysgol, sef 'Talent Botwnnog'. Bu cystadlu brwd gyda llawer yn arddangos eu talentau amryddawn, ond dim ond un daeth i'r brig, sef Chloe Munnery yn canu 'Love Song'. Llongyfarchiadau mawr iddi hi.

Eleni, oherwydd y tywydd, dim ond dau weithgaredd a lwyddwyd i'w cynnal y tu allan, sef twrnament pêl droed pum pob ochr a gêm hoci rhwng hogia a genod Blwyddyn 11. Wel, am gystadleuol! Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn y gampfa gan gynnwys ras rhwystrau, yfed diodydd afiach a wacsio coesau hogia Blwyddyn 11 ac athrawon. Cymerodd lawer o ddisgyblion a staff ran yn y gweithgareddau a buasem yn hoffi cymryd y cyfle yma i ddiolch iddynt am ein cefnogi.

Ar y noson, 'roedd pob un ohonom yn nerfus. Doedden ni ddim yn gwybod faint o bobl oedd am droi i fyny ar noson oer a gwlyb yn Nhachwedd. Ond er gwaethaf ein pryderon mi ddaeth nifer fawr o bobl - doedden ni methu coelio'r peth. Diolch yn fawr i bawb wnaeth gefnogi ar y noson a chynt. Roedden ni'n lwcus iawn o gael cyn-ddisgybl - Anni Llŷn, sydd nawr yn Fardd Plant Cymru a hefyd yn gyflwynwraig ar S4C i agor y noson. Diolch yn fawr iddi hi.

Llwyddwyd i godi dros £5000 ac mae'r holl arian yma wedi mynd tuag at elusennau neu brosiectau lleol.

Buasem ni fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn hoffi diolch i'r holl bwyllgor, disgyblion Blwyddyn 11 a gweddill yr ysgol, staff yr ysgol a'r rhieni am ein cefnogi ar y noson a chynt. A phob lwc i'r criw flwyddyn nesa!

Siwan Fflur Williams a Gruffydd Ifan Roberts


CYFARFODYDD RHieni AC ATHRAWON

Mae cyfarfodydd rhieni wedi'w trefnu ar y dyddiadau canlynol, o 4 y.h - 6 y.h. Byddwn yn llythyr chi cyn pob cyfarfod i weld os ydych yn bwriadu bod yn bresennol. Mae'r rhain yn gyfarfodydd pwysig iawn er mwyn gwrio cynnydd eich mab/merch.

Blwyddyn 7	Blwyddyn 8	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11	Blwyddyn 9
Ionawr 12	Chwefror 2	Mawrth 8	Mawrth 22	Ebrill 12

CYSYLLTU Â'R YSGOL

Os ydych am gysylltu â ni yna gallwch wneud mewn sawl ffordd:

 **01758 730220**

 **pennaeth@botwnnog.gwynedd.sch.uk**

neu gan ddefnyddio'r ffurflen ar lein ar ein gwefan

 www.ysgolbotwnnog.org/cysylltu.php

STAFF

Dymuniadau gorau

Dymunwn yn dda i Mr Deio Parri Jones wrth iddo gymryd newid mewn gyrfa. Diolch yn fawr iddo am ei holl waith yn dysgu Dylunio a Thechnoleg a TGCH yn Ysgol Botwnnog ers 2008.

Dymuniadau gorau hefyd i Mr Dafydd Eurgain Jones yn ei swydd newydd gydag Adran Cynhwysiad Cyngor Gwynedd.

Diolch i Mr Alan Wyn Jones am ddysgu Saesneg am y tymor yma yn ystod absenoldeb mamolaeth Mrs Sioned Medi Parry. Dymuniadau gorau iddo wrth iddo gychwyn ei swydd newydd yn dysgu Saesneg yn Ysgol Dyffryn Nantlle.

Croeso i'r staff newydd

Croeso i Mr Dion Bee sydd yn dysgu Dylunio a Thechnoleg a TGCH.

PRESENOLDEB

Rydych wedi cael adroddiad byr ar bresenoldeb eich mab/merch am y tymor cyntaf gyda'r adroddiad interim diwedd tymor diwethaf. Braf yw adrodd fod 41% o ddisgyblion yr ysgol wedi colli llai na diwrnod o ysgol yn ystod y tymor - gyda 86 o ddisgyblion heb golli'r un diwrnod o gwbl - Da iawn chi!

Targed pawb ar gyfer y flwyddyn gyfan ydi presenoldeb o o leiaf 96%. Golyga hynny golli dim mwy na 8 diwrnod yn ystod yn flwyddyn.

100%	97%+	96%+	93%+	90%+	85%+	Llai na 85%
Gwych	Da iawn	Da	Boddhaol	Peri pryder	Angen sylw	Anfoddhaol
0	Dim mwy na 6 diwrnod	Dim mwy na 8 diwrnod	Dim mwy na 13 diwrnod	Dim mwy na 19 diwrnod	Dim mwy na 29 diwrnod	29 diwrnod neu fwy

CAIS AM WYLIAU YN YSTOD Y TYMOR

Yn dilyn cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru mae'r Cyngor Sir wedi argymhell i'w hysgolion awdurdodi dim mwy na 5 diwrnod o wyliau / ymweliadau i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 3 (Blynnyddoedd 7,8,9) a pheidio awdurdodi unrhyw wyliau i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 (Blynnyddoedd 10 ac 11) yn ystod y tymor ysgol.

Byddwn yn cadw at y cyfarwyddyd yma yn Ysgol Botwnnog. Bydd unrhyw absenoldebau y tu allan i'r cyfyngiadau hyn yn cael eu cofnodi fel absenoldeb heb awdurdod. Mae Swyddog Lles Addysg yr Awdurdod yn monitro absenoldebau heb awdurdod yn wythnosol ac os ceir 10 neu fwy ohonynt gallai arwain at rybudd cost benodedig.

Cyn mynd ar wyliau neu ymweliadau eraill yn ystod y tymor dylai rhiant gysylltu â'r Prifathro i dderbyn caniatâd i dynnu plentyn o'r Ysgol.

ABSENOLDEB - TREFN CYSYLLTU

Er mwyn sicrhau fod pawb sydd i fod yn yr ysgol yn bresennol gofynnwn i chi gysylltu â'r ysgol ar fore cyntaf unrhyw absenoldeb fel ein bod yn gwybod os yw eich mab/merch i fod yma ai peidio.

Gofynnwn i chi adael i ni wybod os yw eich mab / merch yn absennol drwy ffonio 01758 730220 rhwng 8:00 a 9:15.

Os na fydd yr ysgol wedi derbyn galwad ffôn erbyn 9.15 o'r gloch yn dweud wrthym pam nad yw eich plentyn yn yr ysgol, yna byddwn yn cysylltu gyda'r cartref neu'r man gwaith.

TYWYDD GARW A CHAU'R YSGOL

Os cyfyd sefyllfa pan fo rhaid cau'r ysgol oherwydd rhesymau tu allan i'n rheolaeth - tywydd, dim trydan neu ddŵr, ac yn y blaen; byddwn yn ceisio gyrru neges destun i'r cartref i'ch hysbysu. Gallwn yrru neges i bob cartref o fewn munudau i'ch hysbysu - cyn belled fod gennym rif ffôn symudol a chyfeiriad e-bost dilys.

Byddwn hefyd yn rhoi cyhoeddiad ar Radio Cymru rhwng 7:00 ac 8:00 y bore ac ar wefan y Cyngor - www.gwynedd.gov.uk

Os oes rhaid cau'r ysgol yn ystod y dydd a bod angen anfon y plant gartref oherwydd ystyriaethau iechyd a diogelwch - dyma fydd y drefn:-

- y plant i fynd adref ar y bws (os mai felly maent yn dod i'r ysgol)
- wedi dod oddi ar y bws y plant i fynd i'w cartrefi neu i dŷ perthynas neu ffrind (yn ôl eich cyfarwyddyd chi fel rhieni).

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae newidiadau mawr ar y gweill yn y maes yma yn Sirol ac yn Genedlaethol - gellir cael gwybodaeth bellach ar [Newyddlen ADY - Nadolig 2015](#). Mae copi papur ar gael yn yr ysgol os ydych yn dymuno.

COD YMDDYGIAD AR GYFER DISGYBLION WRTH DEITHIO AR FWS YSGOL

- RHAN O BOLISI CENEDLAETHOL

Mae eich diogelwch yn bwysig iawn. Rhaid i chi ymddwyn yn gyfrifol ac yn ddiogel wrth deithio i'r ysgol neu'r coleg ac oddi yno p'un ai ydych chi'n defnyddio bws, trêen neu dacsï neu'n beicio neu'n cerdded neu'n defnyddio unrhyw ddull arall. Os byddwch chi'n defnyddio'r bws i fynd i'r ysgol neu'r coleg mae'n rhaid i chi ddilyn y rheolau yn y Cod Ymddygiad wrth Deithio ar Fysiau Ysgol.

Os nad ydych yn dilyn y Cod hwn, er eich diogelwch chi eich hun a diogelwch pobl eraill, gall yr awdurdod lleol, yr ysgol a'r coleg gymryd camau yn eich erbyn. Gall hyn olygu tynnu eich hawl i gael cludiant i'r ysgol oddi arnoch chi a hyd yn oed eich gwahardd o'r ysgol.

Cod Ymddygiad wrth Deithio ar Fysiau Ysgol

- Pan fyddwch yn aros wrth safle bws, gwnewch yn siŵr eich bod yn aros mewn lle synhwyrol oddi ar y ffordd.
- Trefnwch gyda'ch rhieni beth i'w wneud os na fydd y bws yn cyrraedd neu os byddwch yn colli'r bws.
- Pan ddaw'r bws, arhoswch iddo stopio. Peidiwch byth â gwithio neu rithro at y drws.
- Dangoswch eich pàs (os rhoddwyd un i chi) pan fyddwch yn mynd ar y bws.
- Os byddwch yn defnyddio bws ysgol rhaid i chi aros yn eich sedd am y siwrnai gyfan.
- Os byddwch yn defnyddio bws cyhoeddus rhaid i chi ddod o hyd i sedd wag os oes un ar gael i chi.
- Peidiwch byth â rhoi eich bag neu unrhyw beth arall sy'n perthyn i chi i lawr yr eil yng nghanol y bws.
- Gwisgwch y gwregys diogelwch bob amser os oes un ar gael.
- Rhaid i chi beidio â thynnu sylw'r gyrrwr pan fydd yn gyrru.
- Peidiwch byth â bwyta nac yfed ar y bws.
- Peidiwch byth â thafllu dim i mewn i'r bws nac oddi ar y bws.
- Peidiwch byth ag achosi difrod na fandaleiddio unrhyw ran o'r bws.
- Peidiwch byth â cheisio agor y drysau neu'r allanfeydd ar y bws, oni bai y bydd argyfwng.
- Dilynwch gyfarwyddiadau'r gyrrwr neu'r cynorthwydd teithwyr bob amser.
- Os digwydd damwain arhoswch ar y bws hyd nes y dywedir wrthoch chi am adael. Os nad yw'n ddiogel i aros ar y bws yna defnyddiwch yr allanfa fwya diogel i fynd oddi arno.
- Peidiwch byth â mynd ar y bws ac oddi arno hyd nes y bydd wedi stopio.
- Byddwch yn synhwyrol bob amser wrth fynd oddi ar y bws ac ewch â 'ch holl eiddo gyda chi.
- Peidiwch byth â chroesi'r ffordd o flaen y bws na chwaith y tu ôl i'r bws.

Gellir gweld y polisi llawn drwy glicio [yma](#).

Cysylltwch â'r ysgol os ydych yn poeni am ymddygiad wrth deithio i'r ysgol.

**MAE CAMYMDDWYN WRTH DEITHIO AR FWS YN PERYGLU PAWB AR Y BWS A GALL
ARWAIN AT EICH GWAHARDD ODDI AR Y BWS.**